**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Ystafelloedd 6 a 7 Ty Arloesi Magwyr ar Dydd Mawrth 15 Tachwedd, 2016 am 1.30pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir E.J. Hacket Pain (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Sir A. Easson

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Gill Vaisey | RE Consultant |
| Sharon Randall-Smith | Head of Achievement and Attainment |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**HEFYD YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Roman Catholic Church | Mr. R. Cottrell |
| Buddhist Faith | Ms. S. Khandro |
| Teachers' Associations | Mr. A. Jones, Ms. S. Perry-Phillips, Mr. S. Oram |
| Co-opted Members | Ms. K. Fitter, Mr. T. Thomas |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: P. Clarke, J. George, D. Jones, B. Strong

Mrs. V. Howells, Revd. Dr. P. Baines, Mrs. S. Cave, Mrs. F. Jilani, Mrs. N. Baicher, Ms. M. Millington

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd datganiadau o fuddiant gan yr Aelodau.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 10fed Mehefin 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd yn amodol ar y newid canlynol:

Tudalen 5, agenda eitem 13 – Bwletin Newyddion CYSAG, pwynt bwled cyntaf:

- Roedd Ysgol Gyfun Trefynwy wedi ymweld ag Auschwitz a Krakow yng Ngwlad Pwyl a bu'n brofiad teimladwy iawn i'r athrawon a'r myfyrwyr.

Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynghorodd y cynrychiolydd ar ran yr athrawon y Pwyllgor fod fersiwn gywir Lefelau AG o fewn y Rhaglen Incerts bellach wedi'i hamlygu'n drwm.

- Roedd Diwrnod AG Ysgol Gynradd Goytre Fawr wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr AG.

- Roedd enwebiadau Pwyllgor CYSAG ar gyfer Pwyllgor Gweithredol Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi bod yn llwyddiannus, sef, Mary Parry, Huw Stephens a Mathew Maidment.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Ystafelloedd 6 a 7 Ty Arloesi Magwyr ar Dydd Mawrth 15 Tachwedd, 2016 am 1.30pm**

- Adolygiad o’r Cwricwlwm - Roedd Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi darparu adborth yn ddiweddar ar ei safbwynt ynghylch cynnydd parthed datblygu’r cwricwlwm newydd. Nodwyd y disgwylid gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion. Mynegodd cynrychiolwyr yr athrawon bryder nad oedd ysgolion yn cael diweddariad ynghylch datblygiadau.

- Disgwylid ymateb gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg mewn perthynas â’r gwahoddiad a estynnwyd yn gwahodd cynrychiolwyr i fynychu cyfarfod Pwyllgor CYSAG.

3. **Adborth o’r Diwrnod AG yn Ysgol Cil-y-Coed (ffurflen gwerthuso’r ysgolion ac ymatebion gan ddisgyblion).**

Derbyniasom adborth oddi wrth Ysgol Cil-y-coed ynghylch y Diwrnod AG a gynhaliwyd ar 28ain Mehefin 2016.

Roedd Aelodau CYSAG yn falch â chanlyniadau’r digwyddiad gan fod nifer o ymatebion cadarnhaol wedi’u derbyn. Roedd disgyblion wedi cymryd rhan ac wedi profi gwahanol weithdai ac roeddent wedi cael cipolwg gwerthfawr ar amrywiol ffyddau.

Rhoesom ddiolch i’r Cynghorydd AG, yr athrawon a’r cynrychiolwyr ffydd am eu cyfraniadau.

4. **Ystyried trefnu digwyddiad hyfforddiant ar gyfer ynrychiolwyr ac athrawon ffydd – gweithdai darparwyr rhannu ffydd.**

Cytunasom y byddai’r Cynghorydd AG a’r Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad yn ymgynghori gyda nifer o benaethiaid ysgolion cynradd ynghylch y galw posib am achlysur hyfforddiant i gynrychiolwyr ffydd ac athrawon o gwmpas thema ‘darparu gweithdai rhannu ffydd’,

5. **Cael cydnabyddiaeth am eich CYSAG.**

Hysbysodd y Cynghorydd AG yr Aelodau i CYSAG Sir Fynwy gael ei wahodd i wneud cais am Wobr Cynwysoldeb Accord, sy’n ceisio gwobrwyo CYSAGau sy’n gweithio galetaf yn eu hardal tuag at hybu twf cynhwysiant, cydlyniant a chyd-ddealltwriaeth rhwng y rheiny o wahanol grefyddau a chredoau. Roedd y Cadeirydd wedi penderfynu cynnig am y gydnabyddiaeth a byddai’n llanw’r ffurflen gais ar ran y Pwyllgor.

6. **Coladiad CYSAGau o ymatebion i’r arolwg gan ysgolion (cyflwyniad).**

Derbyniasom gyflwyniad oddi wrth Gymdeithas CYSAGau Cymru, yn cael ei gyflwyno gan y Cynghorydd AG, ynghylch Bagloriaeth newydd Cymru ac AG. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd 16 allan o 22 o CYSAGau yn gallu anfon datganiadau o’u hysgolion.

- Cwblhaodd cyfanswm o 70 o ysgolion yr arolwg.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Ystafelloedd 6 a 7 Ty Arloesi Magwyr ar Dydd Mawrth 15 Tachwedd, 2016 am 1.30pm**

Derbyniwyd ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

**C1. Ers gweithredu Bagloriaeth newydd Cymru, a yw'ch ysgol yn darparu Addysg Grefyddol statudol yn unol â'r Maes Llafur a Gytunwyd yn Lleol ar gyfer AG yng Nghyfnod Allweddol 4?**

Dywedodd 10 ysgol 'Nac ydyw' (14%).
Dywedodd 60 ysgol 'Ydyw' (86%).

Darparodd 40 ysgol fanylion i gefnogi'u hateb.

**C2. Ers gweithredu Bagloriaeth newydd Cymru, a yw'ch ysgol yn cynnig cymhwyster Addysg Grefyddol TGAU fel un o'r cymwysterau ategol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4?**

Dywedodd 11 ysgol 'Nac ydyw' (16%).
Dywedodd 59 ysgol 'Ydyw' (84%).

Darparodd 28 ysgol fanylion i gefnogi'u hateb

**C2.a) Os mai 'Ydyw', a yw cwrs Astudiaethau Crefyddol TGAU yn cael ei addysgu o fewn: a) Amser craidd AG (ar gyfer yr holl ddisgyblion Cyfnod Allweddo), neu b) Dewis yn unig, c) Arall?**

Dywedodd 32 ysgol (46%) a) Amser craidd AG.
Dywedodd 21 ysgol (30%) b) Dewis yn unig.
Dywedodd 11 ysgol (16%) c) Arall.

Darparodd 29 ysgol fanylion i gefnogi'u hateb

**C3. A gafodd Bagloriaeth newydd Cymru effaith fwy cadarnhaol / fwy negyddol neu ddim effaith ar AG?**

Dywedodd 47 ysgol (67%) 'Dim effaith'.
Dywedodd 11 ysgol (16%) 'Effaith gadarnhaol'.
Dywedodd 12 ysgol (17%) 'Effaith negyddol'.

Darparodd 1 ysgol fanylion i gefnogi'i hateb

Synnwyd Aelodau CYSAG gan y ffigurau.

**C4. Sut mae Bagloriaeth newydd Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar AG yn eich ysgol?**

**C5. Sut mae Bagloriaeth newydd Cymru wedi cael effaith negyddol ar AG yn eich ysgol?**

20 ymateb negyddol (40%).
28 ymateb cadarnhaol (60%).

**C6. A ydych chi angen cefnogaeth gan eich CYSAG lleol?**

Dywedodd 8 ysgol (11%) 'Ydym'.
Dywedodd 53 ysgol (76%) 'Nac ydym'.
Ni roddodd 9 ysgol (13%) ateb.

Darparodd 23 ysgol fanylion i gefnogi'u hateb.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

**7. <u>Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar ddiffyg cydymffurfio ag AG.</u>**

Derbyniasom lythyr ynghylch cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru i CYSAGau ar ddiffyg cydymffurfio â gofynion AG yng ngoleuni Bagloriaeth newydd Cymru.

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod Gweithredol Cymdeithas CYSAGau Cymru pa gamau y gellid eu cymryd gan CYSAGau yn nigwyddiad ysgol neu ysgolion o fewn eu Hawdurdod lleol, sydd, o ganlyniad i gymhwyster Bagloriaeth newydd Cymru, ar hyn o bryd heb gwrdd â'u gofyniad statudol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Roedd y cyngor a roddwyd fel a ganlyn:

- Yn y lle cyntaf, cynghorir CYSAGau i hysbysu/cynghori'r awdurdod lleol yn ffurfiol.

- Os pery'r sefyllfa'r un, a'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn parhau i beidio â chwrdd â'r gofyniad statudol ar gyfer AG, cynghorir CYSAGau i hysbysu Cymdeithas CYSAGau Cymru.

- Cynghorir Cymdeithas CYSAGau Cymru i ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw i'w gynghori / atgoffa o'i ddyletswydd.

- Cynghorir Cymdeithas CYSAGau Cymru i drosglwyddo'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru.

Penderfynasom dderbyn y wybodaeth a nodi'i chynnwys.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd yn Ystafelloedd 6 a 7 Ty Arloesi Magwyr ar Dydd Mawrth 15 Tachwedd, 2016 am 1.30pm**

**8. <u>Y sefyllfa yn ysgolion Sir Fynwy.</u>**

Derbyniasom ddiweddariad geiriol ar y sefyllfa yn ysgolion Sir Fynwy. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae gan bob un o'r pedair ysgol uwchradd agwedd wahanol at ddarpariaeth AG ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru.
- Mae dwy ysgol ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion i ddarparu AG.
- Nid yw un ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol i ddarparu AG ar gyfer yr holl ddisgyblion oherwydd bod rhai disgyblion ag AG fel elfen yn unig o Fagloriaeth Cymru.
- Mae un ysgol yn dal yn y broses o benderfynu sut y bydd yn darparu ar gyfer AG ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru.
- Mae rhai ysgolion yn hyderus y gallant gwrdd â'r mesurau gofynnol tra mae eraill yn amheus.
- Mae'r niferoedd sy'n cymryd Cwrs llawn AG TGAU yn uchel.
- Mae'r niferoedd sy'n cymryd Lefel A mewn pynciau sy'n gysylltiedig ag AG yn uchel.
- Mewn un ysgol (Blwyddyn 10) mae dewis i gymryd AG yng Nghyfnod Allweddol 4, yna yng Nghyfnod Allweddol 5, and adolygir y sefyllfa'n flynyddol.
- Mae Bagloriaeth Cymru bellach wedi'i sefydlu.
- Mae rhai ysgolion yn hyderus y byddant yn cwrdd â'r mesurau gofynnol.
- Mae'n galonogol gweld bod nifer dda yn cymryd AG.
- Mae gofyniad statudol i ddarparu AG i fyny at addysg ôl-ysgol. Mynegwyd pryder y gallai Bagloriaeth Cymru fethu â darparu darpariaeth AG lawn.
- Mae Ysgol Trefynwy wedi ceisio cefnogi darpariaeth AG drwy'i hymgorffori i mewn i faes llafur Bagloriaeth Cymru ond bu'n anodd cyflawni hyn oherwydd y pwysau a fu ar staff nad ydynt yn broffesiynol sy'n gorfod paratoi myfyrwyr ar gyfer cymhwyster TGAU. Mae'n anodd cyflawni darpariaeth AG lawn yn yr amser sydd ar gael. .
- Roedd yn angenrheidiol cydnabod y sefyllfa y cafodd ysgolion eu hunain ynddi.
- Dywedodd Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad y byddai'n dwyn nôl y materion a godwyd a'u trafod gyda'r ysgolion dan sylw.

- Mae ysgol Cil-y-coed wedi ymladd i ysgaru darpariaeth AG o Fagloriaeth Cymru ac mae wedi dynodi amser ym Mlwyddyn 10 ar gyfer Darpariaeth AG. Addysgir darpariaeth AG gan arbenigwyr.

Wedi derbyn y diweddariad geiriol a'r safbwyntiau a fynegwyd, penderfynasom fod y Cadeirydd a'r Cynghorydd AG yn paratoi llythyr i'w ddangos i aelodau CYSAG cyn ei anfon at Kirsty Williams A.C. Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn amlinellu pryderon Pwyllgor CYSAG. Anfonid copi o'r llythyr i Gymdeithas CYSAGau Cymru yn ogystal.

Penderfynasom dderbyn y diweddariad geiriol a nodi'i gynnwys.

**9. <u>Manyleb AG achrededig CBAC.</u>**

Derbyniasom fanyleb Astudiaethau Crefyddol achrededig CBAC sy'n cwrdd â Meini Prawf Cymhwyster TGAU i'w addysgu yng Nghymru o Fedi 2017.

Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynhwysai'r fanyleb bwyslais trwm ar gysyniadau Cristnogol a diwinyddiaeth. .

- Roedd yn rhy drwm a systematig ac roedd ofn na fyddai'r myfyrwyr yn mwynhau'r cwrs, a allai, yn ei dro, effeithio ar nifer y myfyrwyr yn cymryd y pwnc.

- Bydd yn anodd cyflawni drwy gyfrwng cwrs byr AG.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys a byddwn yn monitro faint fydd yn cymryd y cwrs a chyflawniadau'r disgyblion mewn arholiadau yn y dyfodol. .

**10. <u>Grant Awdurdod Lleol i gefnogi athrawon pynciau di-graidd gyda manylebau TGAU newydd – adborth ar ddatblygiadau cyfredol.</u>**

Hysbyswyd ni y cynghorwyd grŵp Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael i bob Consortium i gefnogi athrawon pynciau di-graidd i weithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer y manylebau TGAU newydd. .

Dywedodd y Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad y bydd yn dilyn y mater hwn i fyny gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

**11. <u>Adolygiad Barnwrol o Astudiaethau Crefyddol TGAU yn Lloegr</u>**

Derbyniasom y wybodaeth ganlynol:

- Ymateb i Ddyfarniad yr Uchel Lys oddi wrth Dr. Satvindar Juss ar Astudiaethau Crefyddol TGAU gan gynnwys safbwyntiau anghrefyddol o fewn AG.

- Dogfennaeth ganllawiau a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Ddyneiddiaeth Prydain.

- Ymateb gan yr Adran dros Addysg yn Lloegr.

Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at ddyfarniad yr Uchel Lys ar Addysg Grefyddol yn ddogfen swyddogol. Ymddengys bod yr awdur yn hyrwyddo cynnwys Dyneiddiaeth mewn astudiaethau ysgol..

- Mae'r ddogfen yn dwyn yr enw 'Cefnogi Ysgolion i Addysgu Dyneiddiaeth' yn ddogfen gadarn yn addysgol ac mae'n cyfeirio at wefan ddefnyddiol yn cynnwys deunyddiau addysgu praff o'i mewn. Darperir adnoddau ar gyfer athrawon.

Penderfynasom dderbyn y ddogfennaeth a nodi'i chynnwys.

**12. <u>Derbyn a nodi cofnodion drafft cyfarfod CYSAGau ar 23ain Mehefin 2016.</u>**

Derbyniasom gofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 23ain Mehefin 2016. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

**Cyfarwyddyd ar reoli'r hawl i dynnu'n ôl o Addysg Grefyddol**

Byddai'r cyfarwyddyd yn gymorth i rieni os ydynt wedi tynnu neu'n meddwl am dynnu'u plant yn ôl o ddarpariaeth AG. Mae'r ddogfen wedi bod allan i ymgynghoriad a derbyniwyd ymatebion cadarnhaol. Bu'r gefnogaeth oddi wrth grwpiau ffydd yn dda hefyd. Cyhoeddir y ddogfen a bydd ar gael i'r holl ysgolion.

Penderfynasom dderbyn y cofnodion a nodi'u cynnwys.

**13. <u>Paratoadau i gynnal cyfarfod CYSAGau ar 3ydd Mawrth, 2017.</u>**

Derbyniasom restr wirio'r paratoadau ar gyfer croesawu Cymdeithas CYSAGau Cymru 3ydd Mawrth 2017. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd Cerdd Gwent yn darparu peth o'r adloniant cerddorol ar y diwrnod.

- Bydd cyfuniad o ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd yn paratoi adloniant cerddorol.

- Bydd bwrdd arddangos ag enwau aelodau CYSAG hefyd ar gael. Gellid estyn hyn i gynnwys arddangosfa ffydd.

- Llogwyd ystafelloedd a darperir lluniaeth.

- Gwahoddir Penaethiaid AG yn ysgolion Sir Fynwy i fynychu.
- Gwahoddwyd Cadeirydd y Cyngor hefyd i fynychu..

Penderfynasom dderbyn y diweddariad a nodi'i gynnwys.
.

**14. <u>Derbyn Adroddiad Blynyddol drafft 2015 / 2016 (i ddilyn).</u>**

Nodwyd adroddiad blynyddol drafft 2015/16.

**15. <u>Ysgol Gyfun Trefynwy.</u>**

Derbyniasom adroddiad hunanarfarnu Ysgol Gyfun Trefynwy.

Roedd yr ysgol wedi derbyn graddfa ardderchog/dda mewn perthynas â'r cwestiynau allweddol a amlinellir yn yr adroddiad.

Nodwyd bod gwybodaeth Cyfnod Allweddol 5 trwy amryfusedd wedi cael ei hepgor. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu gan Sharon Perry Phillips.

Penderfynasom fod y Cynghorydd AG yn ysgrifennu at y Pennaeth yn llongyfarch yr ysgol ar gynhyrchu adroddiad hunanarfarnu da.

**16. <u>Ysgol Gynradd Kymin View.</u>**

Derbyniasom adroddiad hunanarfarnu Ysgol Gyfun Trefynwy.

Roedd yr ysgol wedi derbyn graddfa ardderchog/dda mewn perthynas â'r cwestiynau allweddol a amlinellir yn yr adroddiad.

Nodwyd bod gwybodaeth Cyfnod Allweddol 5 trwy amryfusedd wedi cael ei hepgor. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu gan Sharon Perry Phillips.

Penderfynasom fod y Cynghorydd AG yn ysgrifennu at y Pennaeth yn llongyfarch yr ysgol ar gynhyrchu adroddiad hunanarfarnu da.

**17. <u>Bwletin Newyddion CYSAG.</u>**

Derbyniasom ffurf ddrafft Bwletin Newyddion Tymor yr Hydref 2016 CYSAG. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Caiff y Bwletin Newyddion ei gwblhau a bydd ar gael o ddiwedd Tachwedd / yn gynnar yn Rhagfyr 2016.
- Gellid sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gael drwy gyfrwng gwegyswllt.

- Bydd cynrychiolydd y Ffydd Fwdhaidd yn ysgrifennu erthygl ar gyfer y Bwletin Newyddion ynghylch codi arian ar gyfer encil gwledig yn y Gymru wledig.

- Roedd dwy ysgol ffydd. wedi'u harolygu.

- Cynhelir hyfforddiant Adran 50 yn fuan.

- Bydd cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig yn ysgrifennu erthygl ar gyfer y Bwletin Newyddion ynghylch encil a fynychodd yn ddiweddar yn Abaty Llantarnam.

- Bydd Simon Oram yn ysgrifennu erthygl ar gyfer y Bwletin Newyddion ynghylch y Diwrnod Ffydd a gynhaliwyd yn ei ysgol.

- Amlinellir gwybodaeth am Ddiwrnod Coffa'r Holocost 2017 yn y Bwletin Newyddion.
- Amlinellir gwybodaeth ynghylch cyfleoedd Ysgoloriaeth Farmington 2017-2018 yn y Bwletin Newyddion.

Penderfynasom dderbyn diweddariad y Bwletin Newyddion a nodi'i gynnwys.

**18. <u>Nodi dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd 2016 / 2017:</u>**

Bydd cyfarfodydd nesaf Pwyllgor CYSAG fel a ganlyn::

Dydd Gwener 10fed Chwefror 2017 am 1.30pm – Tŷ Arloesi, Magwyr.

Dydd Mawrth 23ain Mai 2017 am 1.30pm – Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15:25.**